# YSGOL GYNRADD GYMRAEG BRYN -Y- MÔR

*Pennaeth/ Headteacher: Mrs Elin Wakeham*

*Mewn undod mae nerth /Stronger together*

16.07.20

Annwyl Riant / Ofalwr,

Wrth inni agosáu at ddiwedd y flwyddyn academaidd, hoffwn achub ar y cyfle hwn i ddiolch i bawb, disgyblion a rhieni, am eu gwaith caled a'u cefnogaeth. Rydym i gyd wedi chwarae ein rhan yn y gwaith tîm sydd wedi parhau i wneud Ysgol Bryn y Môr, mewn un o gyfnodau mwyaf heriol yn hanes yr ysgol, yn gymuned lwyddiannus a hapus.

Hoffwn yn arbennig estyn fy nymuniadau gorau i ddisgyblion Blwyddyn 6 a fydd yn gadael ar ddiwedd y tymor hwn i ddechrau pennod newydd a chyffrous yn eu bywydau. Hoffwn ddiolch iddynt am eu cyfraniad ar fywyd ysgol dros y blynyddoedd a dymuno'r gorau iddynt yn y dyfodol.

Os yw'ch plentyn yn dychwelyd ym mis Medi, mae'n hanfodol bwysig eich bod chi'n darllen y llythyr hwn i gyd.

Ym mis Medi, rwy'n falch i gyhoeddi y bydd Mrs Kelly Jones yn ailddechrau ar ei swydd fel athrawes y Meithrin a bydd Miss Sophie John yn dychwelyd yn llawn amser i'w swydd fel athrawes blwyddyn 5.

Rydym hefyd yn dymuno'n dda i Mrs Diane Evans a Miss Hafwen Lewis, sy'n ein gadael ar ddiwedd y tymor. Rydym yn ddiolchgar iddynt am eu cyfraniad gwerthfawr dros y flwyddyn ddiwethaf. Mae eu gwaith caled a'u cefnogaeth i'r disgyblion wedi cael ei adlewyrchu yn y sylwadau gwych a gawsom gennych chi fel rhieni. Byddwn yn gweld eu heisiau ym mis Medi.

Ar ran fy hun a'r staff hoffwn ddymuno seibiant haf pleserus a hamddenol i chi i gyd! Rydym yn edrych ymlaen at groesawu disgyblion, hen a newydd, yn ôl ym mis Medi 2020, yn awyddus i ailafael yn eu dysgu.

Yn Gywir

*E. Wakeham*

Elin Wakeham
Pennaeth

**Ysgol Gynradd Gymraeg Bryn y Môr, St Albans Road, Brynmill, Swansea, SA2 0BP**
**E-bost/ E-mail: ygg.brynymor@swansea-edunet.gov.uk**
**Gwefan/ Website: www.yggbrynymor.co.uk**
**Trydar/Twitter: @YGGBrynymor1**
**Ffôn/ Tel: 01792 466354**

# YSGOL GYNRADD GYMRAEG BRYN -Y- MÔR

*Pennaeth/ Headteacher: Mrs Elin Wakeham*

Mewn undod mae nerth /Stronger together


**Dates for the first 2 weeks of the Autumn Term**

| | |
|---|---|
| **01.09.20**<br>**Mawrth** | **Diwrnod paratoi - Dim disgyblion**<br>Sylwch fod y rhain yn ddiwrnodau wedi eu neilltuo ar gyfer paratoi'r Ysgol, yn ôl yr asesiad risg, ar gyfer ailagor yr ysgol yn ddiogel. Mae hyn yn cynnwys amser i wasanaethau'r sir megis y gwasanaeth arlwyo. **Nid diwrnod HMS yw'r rhain.** |
| **02.09.20**<br>**Mercher** | **Diwrnod paratoi - Dim disgyblion**<br>Sylwch fod y rhain yn ddiwrnodau wedi eu neilltuo ar gyfer paratoi'r Ysgol, yn ôl yr asesiad risg, ar gyfer ailagor yr ysgol yn ddiogel. Mae hyn yn cynnwys amser i wasanaethau'r sir megis y gwasanaeth arlwyo. **Nid diwrnod HMS yw'r rhain.** |
| **03.09.20**<br>**Iau** | ***Capasiti 50% heddiw***<br>**Grŵp A.**<br>Derbyn - **9.00am - 12pm**<br>Blwyddyn 1 **8.50am - 3.00pm**<br>Blwyddyn 2 - **8.50am - 3.00pm**<br>Blwyddyn 3 - **8.50am - 3.20pm**<br>Blwyddyn 4 - **8.50am - 3.20pm**<br>Blwyddyn 5 - **8.50am - 3.20pm**<br>Blwyddyn 6 - **8.50am - 3.20pm** |
| **04.09.20**<br>**Gwener** | ***Capasiti 50% heddiw***<br>**Grŵp B**<br>Derbyn - **9.00am - 12pm**<br>Blwyddyn 1 **8.50am - 3.00pm**<br>Blwyddyn 2 - **8.50am - 3.00pm**<br>Blwyddyn 3 - **8.50am - 3.20pm**<br>Blwyddyn 4 - **8.50am - 3.20pm**<br>Blwyddyn 5 - **8.50am - 3.20pm**<br>Blwyddyn 6 - **8.50am - 3.20pm** |
| **07.09.20**<br>**Llun** | **Pob Disgybl 1-6**<br>Blynyddoedd 1-2 - 8.50am - 3.00pm<br><br>Blynyddoedd 3-6 - 8.50am - 3.20pm<br><br>Grŵp Derbyn A - 9.00am - 12pm<br>Grŵp Meithrin A Bore – 9.30 – 10.30<br>Prynhawn 1.30pm -2.30pm |


**Ysgol Gynradd Gymraeg Bryn y Môr, St Albans Road, Brynmill, Swansea, SA2 0BP**
**E-bost/ E-mail: ygg.brynymor@swansea-edunet.gov.uk**
**Gwefan/ Website: www.yggbrynymor.co.uk**
**Trydar/Twitter: @YGGBrynymor1**
**Ffôn/ Tel: 01792 466354**

| | |
|---|---|
| **08.09.20**<br>**Mawrth** | **Pob Disgybl 1-6**<br>Blynyddoedd 1-2 - 8.50am - 3.00pm<br>Blynyddoedd 3-6 - 8.50am - 3.20pm<br>Grŵp Derbyn B - 9.00am - 12pm<br>Grŵp Meithrin B Bore – 9.30 – 10.30<br>Prynhawn 1.30pm -2.30pm |
| **09.09.20**<br>**Mercher** | **Pob Disgybl 1-6**<br>Blynyddoedd 1-2 - 8.50am - 3.00pm<br>Blynyddoedd 3-6 - 8.50am - 3.20pm<br>Grŵp Derbyn A - 9.00am - 12pm<br>Grŵp Meithrin C Bore – 9.30 – 10.30<br>Prynhawn 1.30pm -2.30pm |
| **10.09.20**<br>**Iau** | **Pob Disgybl 1-6**<br>Blynyddoedd 1-2 - 8.50am - 3.00pm<br>Blynyddoedd 3-6 - 8.50am - 3.20pm<br>Grŵp Derbyn B- 9.00am - 12pm<br>Grŵp Meithrin Ch Bore – 9.30 – 10.30<br>Prynhawn 1.30pm -2.30pm |
| **11.09.20**<br>**Gwener** | **HMS – Dim Plant** |
| **14.09.20**<br>**Llun** | **Pob Disgybl - Oriau Ysgol Arferol - 8.50 - 3.20**<br>Meithrin - I'w gadarnhau gan yr athrawes.<br>(Gwybodaeth i'w rhannu gyda rhieni erbyn 11.09.20) |

***Gwybodaeth grwpiau i ddilyn.***

**Beth sy'n wahanol ym mis Medi 2020?**

Canllawiau gan Lywodraeth Cymru a'r Awdurdod Lleol:

- Mae mesurau pellhau cymdeithasol wedi eu llacio ar gyfer disgyblion. Fodd bynnag, mae disgwyl o hyd y bydd oedolion yn cadw pellter 2m oddi wrth oedolion a disgyblion eraill, lle bo hynny'n bosibl yn y dosbarth. Disgwylir i ddisgyblion gymaint ag sy'n bosibl, aros yn eu dosbarthiadau 'swigen' eu hunain. Gellir rhannu adnoddau yn yr ystafell ddosbarth ond nid gyda dosbarthiadau eraill.
- Efallai y bydd yr ystafelloedd dosbarth yn edrych ychydig yn wahanol i'r arfer (e.e. gall rhai dosbarthiadau ad-drefnu'r ffordd y mae eu desgiau wedi'u gosod fel bod disgyblion yn wynebu ymlaen)

a llai o bwyntiau cyswllt lle bo hynny'n bosibl.

- Bydd glanhau yn rhan o amserlen yr ysgol gan staff.
- Bydd golchi dwylo yn dal i chwarae rhan hanfodol wrth reoli lledaeniad yr haint a bydd yn rhan o'r diwrnod ysgol.
- Bydd hylendid anadlol yn hanfodol - mae'r drysau a'r ffenestri ar agor lle bo hynny'n bosibl a'r slogan "Daliwch ef. Lladdwch e. Rhowch yn y bin" yn annog disgyblion i ddefnyddio hancesi papur pan yn tisian. Bydd hancesi ar gael yn y dosbarth.
- Bydd amseroedd chwarae ac amseroedd cinio hwnt-gychwyn i osgoi gormod o grwpiau rhag cymysgu. Fodd bynnag, bydd adegau pan na fydd modd osgoi cymysgu megis yn y clwb Brecwast a'r Clwb Gofal a bydd brodyr a chwiorydd hefyd yn cymysgu ar ôl ysgol. Bydd amserau cychwyn a gorffen amrywiol ar gyfer rhai grwpiau blwyddyn.
- Rhaid i chi gadarnhau gydag aelod o staff pan fyddwch chi'n gollwng eich plentyn ei fod ef/hi a'ch teulu yn rhydd o symptomau covid 19.
- Gofynnir i blant sy'n gwisgo gorchuddion wyneb eu tynnu yn yr ysgol. Mae arweiniad ar gael ar y ffordd gywir i gael gwared â gorchuddion wyneb.
- Ar hyn o bryd, ni chaniateir rhieni i mewn i adeilad yr ysgol. Ffoniwch am sgwrs dros y ffôn os oes gennych unrhyw ymholiadau.
- Cyfyngwch ar faint o eitemau y mae eich plentyn yn dod â nhw i mewn i'r ysgol gan y bydd bagiau ysgol yn cael eu cadw yn yr ystafell ddosbarth lle bo hynny'n bosibl, er mwyn osgoi creu ardaloedd gor-gyffwrdd. Dim teganau.
- Mae offer defnydd amledd uchel fel pensiliau a beiros yn eitemau na ddylid eu rhannu, felly os gallant mi fyddai'n syniad da bod eich plentyn (Blwyddyn 2 - 6) yn dod â cas pensil ei hun i'r ysgol.
- Bydd y system unffordd yn aros am nawr yn yr ysgol.
- Bydd ystafell ynysu yn yr ysgol pe bai disgybl neu aelod o staff yn mynd yn sâl.
- Bydd angen i ddisgyblion ddod â'u potel ddŵr eu hunain o hyd a gyda digon o ddŵr ar gyfer y diwrnod gan yr argymhellir nad yw ffynhonnau dŵr ar gael o hyd i ddisgyblion a staff.
- Bydd maint cyfyngedig o ddisgyblion yn cael defnyddio'r toiledau ar unrhyw un adeg.

**Byddwch yn ymwybodol taw canllawiau cyfredol yw'r rhain a gallent newid erbyn mis Medi.**

**Gweithdrefnau gollwng a chasglu ysgolion**

Am y bythefnos cyntaf yn unig, bydd amserlen hwnt-gychwyn yn unol ag argymhellion Llywodraeth Cymru. Bydd giatiau'r ysgol yn agor am 8.35a.m. Gofynnwn i chi ollwng eich plentyn wrth giât mynedfa ochr Brynmill Avenue a chadarnhau ei fod yn rhydd o symptomau. **Os gwelwch yn dda, ar ôl gollwng eich plentyn peidiwch ag ymgynnull o gwmpas y glwyd er mwyn cael lle i rieni eraill i ddod i ollwng eu plant. Bydd hefyd yn rhyddhau manau parcio.**

I lleihau cymygu, am y bythefnos gyntaf bydd yr holl ddisgyblion yn mynd yn syth i'w hystafelloedd dosbarth lle byddant yn cael eu goruchwylio gan staff hyd nes y bydd y diwrnod ysgol yn dechrau am 8.50 a.m. Caniateir i rieni disgyblion meithrin a derbyn gael mynediad i fuarth yr ysgol ac hebrwng eu plant. Mae rhieni plant derbyn newydd yn cael eu hannog i ollwng eu plant wrth y giât, ond os yw eich plentyn yn bryderus ar y dechrau mae croeso i chi fynd gyda nhw i'r iard yn ystod yr ychydig ddyddiau/wythnosau cyntaf nes eu bod yn teimlo'n fwy hyderus a sicr. Bydd staff y dderbynfa ar y buarth i'ch cynorthwyo. Gofynnir i'r rhieni lenwi ffurflen yn hysbysu'r ysgol o enwau'r oedolion sydd wedi eu hawdurdodi i gasglu plant.

Bydd plant ym mlwyddyn 1 a 2 yn cael eu rhyddhau am 3.00pm. Bydd y plant yn ffurfio llinellau ar yr iard ac yn cael eu galw ymlaen at riant / gofalwr cyn gynted ag y byddant wedi cael eu gweld. Ni fydd egwyl o 20 munud yn y prynhawn felly bydd y disgyblion yn dal i gael eu hamser cyswllt athro wedi'i ddyrannu'n llawn.

Bydd disgyblion ym mlynyddoedd 3-6 yn cael eu rhyddhau ar yr amser arferol o 3.20pm. Byddant yn ffurfio llinellau ar yr iard ac yn cael eu galw ymlaen pan fydd rhiant wedi'i weld. Efallai y bydd y broses hon o ryddhau yn cymryd ychydig mwy o amser wrth I ni ddod i arfer â'r system, felly gofynnaf I chi fod yn amyneddgar a byddwn yn rhyddhau'r plant cyn gynted ag y gallwn.

**Cofiwch - Nid oes unrhyw rieni i ddod ar y buarth.**

**Gwisg Ysgol**

Teimlwn fod gwisg ysgol yn hyrwyddo ymdeimlad o berthyn a balchder. Anogir eich plentyn i wisgo gwisg swyddogol yr Ysgol. Gallwch brynu'r wisg gan Nash Sports, Sketty; Dillad Hamdden J a S, Tŷ Coch; Bergoni, Llansamlet; Tesco yn uniongyrchol - ar-lein *

Oherwydd newidiadau a weithredwyd gan Lywodraeth Cymru o fis Medi 2019 gallwch brynu eitemau heb logo'r ysgol. Cofiwch labelu pob dilledyn.

Mae grant hefyd ar gael i rieni i helpu gyda phrynu gwisg ysgol. Cysylltwch â'r swyddfa am fwy o wybodaeth.

Gwisg Ysgol Swyddogol

- Siwmper coch
- Crys polo gwyn
- Trowsus du, sgert, siorts neu pinafore
- Gwisg gingham coch a gwyn (i'r haf be ddyminir)
- Esgidiau du

**Presenoldeb a Phrydlondeb**

Mae'n bwysig bod eich plentyn yn mynychu'r ysgol yn rheolaidd ac yn cyrraedd yn brydlon. O'r 14eg o Fedi,

mae'n orfodol bod eich plenyn yn dychwelyd i'r Ysgol.

**Ar hyn o bryd**, os mae eich plentyn yn hwyr, dewch a'ch plentyn i'r brif fynenfa, canwch y cloch a bydd y aelod o'r swyddfa yn dod at y drws i gasglu'ch plentyn.

**Mewn amgylchiadau arferfol**, os byddwch chi'n cyrraedd yr ysgol yn hwyr mae'n RHAID i chi ddod â'ch plentyn i'r SWYDDFA i gofrestru. Ni fydd marciau hwyr yn cael eu rhoi yn y dosbarth mwyach. Am resymau iechyd a diogelwch mae'n rhaid i ni fod yn ymwybodol pwy sy'n bresennol ar y safle a phwy sy'n absennol.
Bydd disgyblion nad ydynt wedi cofrestru yn y swyddfa yn derbyn absenoldeb heb awdurdod.
Nid yw'n briodol gadael plentyn yn y brif fynedfa - rhaid i rieni ddod â'u plentyn i'r swyddfa i lofnodi'r llyfr hwyr.
Mae rhieni'n gyfrifol am hysbysu'r ysgol os yw plentyn yn hwyr.

Os oes gan eich plentyn apwyntiad meddygol sy'n cynnwys apwyntiad deintyddol neu apwyntiad llygad, cysylltwch â'r ysgol ymlaen llaw fel y gallwn gofrestru absenoldeb awdurdodedig. Os yw eich plentyn yn sâl, cysylltwch â'r ysgol ar fore cyntaf ei absenoldeb naill ai dros y ffôn neu drwy 'Parent Mail' er mwyn ein hysbysu o'r salwch. Os na fyddwn yn clywed gennych, byddwn yn cysylltu â chi trwy neges destun neu dros y ffôn ar fore cyntaf yr absenoldeb. Os na fydd yr ysgol yn derbyn esboniad am absenoldeb eich plentyn, bydd yr absenoldeb yn cael ei gofnodi fel absenoldeb anawdurdodedig.

Os oes angen i chi ofyn am ganiatâd i fod yn absennol, a allech chi lenwi'r ffurflen berthnasol, sydd ar gael o swyddfa'r ysgol a'i dychwelyd i'r ysgol i'w chymeradwyo gan y Pennaeth. Ni ddylid annog gwyliau ysgol yn ystod y tymor. Bydd pob absenoldeb oherwydd gwyliau yn cael ei gofnodi fel anawdurdodedig.

**Trafnidiaeth**
Nid ydym wedi cael cadarnhau ar gyfer bysiau. Byddwn yn cysylltu gyda chi cyn gynted â phosib. Mae'n debyg bydd rhaid i'ch plentyn wisgo gorchudd wyneb.

**Clwb brecwast**
**Ar hyn o bryd,** bydd clwb brecwast yn ailddechrau ar y 14eg o Fedi gydag oriau arferol. Mae'r clwb brecwast ar agor i bob disgybl ysgol bob bore rhwng 7.50am ac 8.50am. Codir tâl o £ 1.50 am bob disgybl sy'n mynychu'r clwb brecwast rhwng 7.50am ac 8.15 am. NODWCH - nid oes mynediad ar ôl 8.25 a.m.
Yn y trefniadau cyfredol, bydd disgyblion yn mynd i'w dosbarthiadau erbyn 8.40am. Bydd darn o dost, ffrwythau a diod mewn bag yn cael ei gynnig i ddisgyblion.

**Amser Cinio / Llaeth a ffrwyth**
**Ar hyn o bryd <u>ni fydd</u>** cinio Ysgol ar gael rhwng y 1af a'r 11eg o Fedi. Bydd rhaid i'ch plentyn ddod â chinio a byrfrydiau eu hunain am y pythefnos gyntaf.

<u>Ni fydd llaeth</u> na ffrwyth ar gael i ddisgyblion y cyfnod Sylfaen am yr hanner tymor cyntaf.

**Mewn amgylchiadau arferol** cost cinio ysgol yw £ 2.30 y dydd neu £ 11.50 am wythnos gyfan. Bydd y fwydlen newydd ar gael ar Wefan Cyngor Dinas Abertawe a gwefan yr ysgolion o fis Medi. Bydd bwydlen lai ar gyfer yr hanner tymor cyntaf - un opsiwn fydd pryd bwyd poeth ac un opsiwn oer. Rhaid gweini pob pryd mewn pecynnau tafladwy. Ar gyfer cinio oer neu giniawau wedi'u pacio a ddygir i mewn o'u cartref, bydd y mwyafrif o ddisgyblion yn cael eu bwyd yn yr ystafell ddosbarth er mwyn osgoi cymysgu grwpiau.

Gan fod gennym sawl plentyn yn yr ysgol sy'n dioddef o alergedd cnau difrifol, a allwn i achub ar y cyfle hwn i atgoffa pawb fod gan ein hysgol 'Bolisi Dim Cnau'. Mae hyn yn golygu na ddylid prynu'r eitemau canlynol i'r ysgol:

- Pecynnau o gnau
- Brechdanau peanut butter
- Bariau ffrwythau a grawnfwyd sy'n cynnwys cnau
- Bariau siocled neu losin sy'n cynnwys cnau
- Rholiau hadau sesame (gall plant sydd ag alergedd i gnau hefyd gael ymateb difrifol i sesame)
- Cacennau wedi'u gwneud â chnau

Mae gennym bolisi i beidio â defnyddio cnau yn unrhyw un o'n bwyd a baratoir ar y safle, ond ni allwn warantu na fydd peth cynnyrch yn cynnwys olion cnau.

**System dalu ar-lein - SQuid**

Mae taliadau cinio a thripiau ysgol bellach yn cael eu gwneud ar ein system talu electronig sQuid.

**Amser Chwarae**

Bydd amserlen hwnt-gychwyn  i ddisgyblion fynd allan i chwarae fel nad yw grwpiau o blant yn cymysgu.

**Clwb Gofal – After School Club**

Bydd y Clwb Gofal yn ailddechrau ar y 14eg o Fedi. Mae'r gost am fynychu 'Clwb Gofal' yn codi o fis Medi 2020. Y gost y pen fydd £ 10 y disgybl a £ 7 i frodyr a chwiorydd eraill. Darperir lluniaeth ysgafn yn ystod y sesiwn sy'n dechrau am 3.20 p.m ac yn gorffen am 5.50 p.m. Cysylltwch â'r ysgol os oes angen lle arnoch gan fod rhestr aros ar hyn o bryd.

**Gwers Ymarfer Corff**

Bydd gwersi AG yn digwydd yn amlach a byddwch yn cael gwybod am wersi AG eich plentyn ar ddechrau'r tymor.

**Cyfarfodydd croeso Tymor yr Hydref**

Ar hyn o bryd ni allwn weld y bydd rhieni'n gallu dod i'r ysgol ar gyfer cyfarfodydd tymor yr hydref. Os yw hyn

yn parhau - byddwn yn ceisio sefydlu cyfarfodydd trwy TEAMS. Bydd mwy o wybodaeth am hyn yn dilyn ar ddechrau'r tymor.

**Canlyniadau Holiadur Rhiant / Gwarcheidwad**

Diolch i bawb a lenwodd yr holiadur rhieni. Dychwelwyd cyfanswm o 82 o holiaduron. Mae hyn yn fwy na llynedd. Rwyf wedi atodi canfyddiadau holiadur yr ysgol isod. Mae'r canlyniadau'n galonogol a diolch i bawb a ychwanegodd sylwadau adeiladol. Mae'r rhain yn cael eu gwerthfawrogi'n fawr a byddant yn cael eu defnyddio i gynllunio ymlaen llaw a'n helpu i barhau i wella ein darpariaeth a'r gofal a gynigiwn. Byddwn yn cynnwys yr holl sylwadau cadarnhaol yn y prosbectws ysgol newydd.

| | Cwestiynau / *Questions* | Cytuno'n gryf/ *Strongly Agree* | Cytuno / *Agree* | Anghytuno / *Disagree* | Anghytuno' n gryf / *Strongly* | Ddim yn gwybod / *Don't know* |
|---|---|---|---|---|---|---|
| 1 | Mae'r ysgol yn gymuned hapus<br>*The school is a happy community* | 37 (46%) | 42 (53%) | 1 (1%) | 0 | 0 |
| 2 | Mae fy mhlentyn yn hoffi'r ysgol hon<br>*My child likes this school* | 49 (60%) | 31 (38%) | 1 ( 1%) | 0 | 1 (1%) |
| 3 | *Cafodd fy mhlentyn gymorth i ymgynefino 'n dda pan ddechreuodd yn yr ysgol / My child was helped to settle well in school when she/he started at the school.* | 46 (56%) | 33 (40%) | 2 (2%) | 0 | 1 (1%) |
| 4 | Mae fy mhlentyn yn gwneud cynnydd da yn yr ysgol<br>*My child is making good progress at school* | 23 (28%) | 46 (56%) | 6 (7%) | 0 | 7 (9%) |
| 5 | Credaf fod fy mhlentyn yn ddiogel yn yr ysgol / I believe that my child is safe at school | 43 (52%) | 36 (44%) | 2 (2%) | 0 | 1 (1%) |
| 6 | Mae disgyblion yn ymddwyn yn dda yn yr ysgol<br>*Pupils behave well in school* | 25 (30%) | 49 (60%) | 2 (1%) | 0 | 7 (9%) |
| 7 | Nid yw plant eraill yn bwlio fy mhlentyn / Other children do not bully my child | 27 (33%) | 38 (46%) | 6 (7%) | 2 (2%) | 9 (11%) |
| 8 | Credaf fod yr ysgol yn delio'n dda ag unrhyw fwlio, aflonyddu neu wahaniaethu, os bydd yn digwydd / I believe that if any bullying, harassment or discrimination occurs, the school deals well with it | 15 (18%) | 32 (39%) | 5 (6%) | 1 (1%) | 29 (35%) |
| 9 | Mae'r addysgu yn dda<br>*The teaching is good* | 35 (43%) | 40 (49%) | 3 4% | 0 | 4 5% |
| 10 | Credaf fod fy mhlentyn yn cael profiadau dysgu da, gan gynnwys teithiau ac ymweliadau addysgol / *I believe that my child has good learning experiences, including educational trips and visits* | 25 30% | 46 56% | 8 10% | 1 1% | 2 2% |

| | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| 11 | Mae'r staff yn disgwyl i fy mhlentyn weithio'n galed ac i wneud ei orau<br>*Staff expect my child to work hard and do his or her best* | 38<br>46% | 41<br>50% | 2<br>2% | 0 | 1<br>1% |
| 12 | Mae'r staff yn trin pob plentyn yn deg a gyda pharch<br>*Staff treat all children fairly and with respect* | 35<br>43% | 43<br>52% | 1<br>1% | 0 | 1<br>1% |
| 13 | Credaf fod yr ysgol yn helpu fy mhlentyn i ddeall y modd y gall bwyta ac yfed effeithio ar ei iechyd / *I believe the school helps my child to understand how eating and drinking can affect their health* | 29<br>35% | 42<br>51% | 6<br>7% | 1<br>1% | 8<br>10% |
| 14 | Credaf fod fy mhlentyn yn cael digonedd o gyfleoedd i wneud ymarfer corff yn rheolaidd yn yr ysgol / *I believe my child has plenty of opportunities to get regular exercise at school* | 26<br>30% | 42<br>51% | 6<br>7% | 1<br>1% | 8<br>10% |
| 15 | Credaf fod yr ysgol yn helpu fy mhlentyn i aeddfedu a chymryd cyfrifoldeb / *I believe the school helps my child to become mature and to take on responsibility* | 33<br>40% | 39<br>48% | 2<br>2% | 0 | 8<br>10% |
| 16 | Credaf fod fy mhlentyn yn cael cymorth ychwanegol pan fydd ei angen arno/arni / *I believe that my child receives appropriate extra support when he/she needs it* | 23<br>28% | 36<br>44% | 5<br>6% | 2<br>2% | 16<br>20% |
| 17 | Credaf fod yr ysgol yn fy hysbysu'n dda am gynnydd fy mhlentyn / I believe the school keeps me well informed about my child's progress | 25<br>30% | 47<br>57% | 7<br>9% | 0 | 3<br>4% |
| 18 | Mae'r ysgol yn gofyn am fy marn fel rhiant ac yn ystyried yr adborth rydw i'n ei ddarparu am yr ysgol / *The school seeks my views as a parent and considers the feedback that I provide about the school* | 24<br>29% | 42<br>51% | 2<br>2% | 2<br>2% | 12<br>15% |
| 19 | Os byddaf yn rhannu problemau neu faterion â'r ysgol, mae'n ymateb ac yn delio â nhw yn briodol / *If I share problems or issues with the school, it responds and deals with them appropriately* | 22<br>27% | 41<br>51% | 3<br>4% | 1<br>1% | 14<br>17% |
| 20 | Credaf fod fy mhlentyn yn gallu manteisio ar ddigon o lyfrau ac offer yn yr ysgol i gefnogi ei ddysgu / *I believe that my child can access enough books and equipment at school to support their learning* | 23<br>28% | 43<br>52% | 3<br>4% | 2<br>2% | 11<br>13% |
| 21 | Credaf fod yr ysgol yn cael ei rhedeg a'i rheoli'n dda / *I believe the school is well run and managed* | 28<br>34% | 48<br>51% | 2<br>2% | 1<br>1% | 3<br>4% |
| 22 | Credaf fod yr ysgol yn paratoi fy mhlentyn yn dda ar gyfer symud ymlaen i'r dosbarth neu' ysgol nesaf / *I believe the school prepares my child well for moving on to the next class or school* | 19<br>23% | 49<br>60% | 1<br>1% | 1<br>1% | 12<br>15% |